# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 6 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Isadeiledd Ledled Gogledd Cymru

**C12 Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y gall polisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru helpu i wella'r isadeiledd ledled gogledd Cymru? (OAQ10068)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cynulliad eisoes wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol yng ngogledd Cymru. Er enghraifft, mae'r Cynulliad yn ariannu gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol i deithwyr rhwng gogledd a de Cymru, mae'r A55 yn cael ei hymestyn fel cyswllt trafnidiaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a chaiff porthladd Mostyn ei wella drwy gymorth dewisol rhanbarthol. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i wella isadeiledd Cymru gyfan. Mae hyn yn elfen allweddol wrth drawsnewid economi Cymru a dyma'r sbardun y tu ôl i'n polisïau trafnidiaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

### Y Mesur Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu

**C13 Ann Jones:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Ysgrifennydd Cartref a/neu Weinidogion eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch effaith y Mesur Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yng Nghymru? (OAQ10061) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Codi Proffil Cymru yn Ewrop

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gyda chynrychiolwyr o'r Undeb Ewropeaidd ar godi proffil Cymru yn Ewrop? (OAQ10066)

**Prif Weinidog Cymru:** Fel Prif Weinidog Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr o amrywiol sefydliadau'r UE i drafod materion Ewropeaidd, gan gynnwys sut y gall y Cynulliad godi ei broffil yn Ewrop. Ar 28 Chwefror, ymwelais â Brwsel am gyfres o gyfarfodydd yn ymwneud â phroffil y Cynulliad a'i agenda bolisi yn yr UE. Ymhlith dyletswyddau eraill, cynheliais dderbyniad yn y Senedd Ewropeaidd i nodi Dydd Gŵyl Dewi. Yr oedd y digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r Celtic Manor hefyd yn gyfle i gael dadl amrywiol ar Gymru, Ewrop a'r byd ehangach. Yr oedd cynrychiolwyr o sefydliadau'r UE ac o aelod wledydd yr UE yn bresennol ynghyd â 38 aelod o'r corfflu llysgenhadol sydd â'i ganolfan yn Llundain ac aelodau o Bwyllgor Materion Ewropeaidd y Cynulliad. Ystyrid i'r digwyddiad fod yn llwyddiannus iawn.

### Cynrychiolaeth Cymru Dramor

**C15 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch ei drafodaethau diweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y modd y caiff Cymru ei chynrychioli dramor? (OAQ10064)

**Prif Weinidog Cymru:** Caf drafodaethau rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am amrywiaeth mawr o faterion. Yr wyf wedi trafod y mater hwn yn gyffredinol ond nid mewn cyfarfod penodol. Cynrychiolir Cymru dramor gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ac eithrio'r cysylltiadau gyda'r Undeb Ewropeaidd, lle mae gan weinyddiaeth y Cynulliad ei chynrychiolaeth ei hun drwy gyfrwng dau aelod o staff gyda statws diplomyddol sydd yn gweithredu o fewn Canolfan Ewropeaidd Cymru a chynrychiolaeth barhaol y Deyrnas Unedig. Yn ei swyddogaeth mewnfuddsoddi, mae gan Awdurdod Datblygu Cymru hefyd staff parhaol sydd wedi eu lleoli dramor i hyrwyddo Cymru.

### Cydlynydd Polisi ar gyfer Materion Trawsbynciol

**C16 Cynog Dafis:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad cryno ar ei swyddogaeth fel cydlynydd polisi ar gyfer materion trawsbynciol? (OAQ10070)

**Prif Weinidog Cymru:** Fel yr wyf wedi'i ddweud wrth ateb y cwestiwn hwn o'r blaen, yr wyf fi a'm cydweithwyr yn y Cabinet yn gweithio'n agos gyda'n gilydd i sicrhau y caiff ein prif themâu eu hadlewyrchu'n llawn yn ein gwaith.

### 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C17 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr hyn a gyflawnwyd gan 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ10059)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn ystod y chwe mis ers y cytundeb, yr ydym wedi datblygu cynigion radical ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth iechyd i'r dyfodol; yr ydym wedi penodi Comisiynydd Plant i Gymru ac wedi ennill deddfwriaeth i roi iddo ragor o bwerau; yr ydym yn targedu ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy Cymunedau'n Gyntaf; ac yr ydym wedi dechrau ar y broses o ddyfeisio'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd.

Yr ydym hefyd yn debyg o lwyddo i gyflwyno'r ddeddfwriaeth a addawsom, gan gynnwys deddfwriaeth ar lywodraeth leol a gofalu, cyn yr haf. Mae'r rheoliadau yng nghyswllt darparu llaeth am ddim mewn ysgolion ar gyfer pob disgybl yng nghyfnod allweddol 1, a phris wedi'i rewi ar gyfer presgripsiynau ac ymestyn y categorïau a gaiff bresgripsiynau am ddim, naill ai wedi cael eu derbyn gan y Cynulliad neu byddant yn dod gerbron yn fuan.

### Goblygiadau yr Ewro i Gymru

**C18 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gyda'i gyd-weinidogion yn San Steffan ar oblygiadau arfaethedig yr ewro i Gymru pan gaiff ei weithredu'n llawn yn 2002? (OAQ10077) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datganiadau gan y Llywodraeth Ganolog

**C19 Mick Bates:** Pa gamau mae Prif Weinidog Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod datganiadau gan y Llywodraeth ganolog sydd yn effeithio ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod y setliad datganoli? (OAQ10075)

**Prif Weinidog Cymru:** Dan y memorandwm dealltwriaeth a choncordatiau, rhaid i adrannau'r DU ymgynghori â ni, a ninnau gyda hwythau, cyn pob cyhoeddiad perthnasol. Rhoddaf fi a'm cydweithwyr bwyslais mawr ar hyn, a byddwn yn parhau i ymyrryd yn bersonol ar yr achlysuron prin pan na chydymffurfiwyd â'r egwyddor hon.

### Codi'r Isafswm Cyflog

**C20 Janet Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y trafodaethau diweddar rhwng y Cynulliad a'r Cyngor Partneriaeth Busnes ynghylch codi'r isafswm cyflog? (OAQ10072)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid yw'r Cyngor Partneriaeth Busnes wedi cynnal unrhyw drafodaethau ynghylch lefel yr isafswm cyflog. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant godiad yn yr isafswm cyflog o £3.70 i £4.10 yr awr o 1 Hydref 2001 ymlaen yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mawrth 2001.

### Blaenoriaethau ar gyfer Datblygu Polisïau

**C21 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar flaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer datblygu polisïau dros y 12 mis nesaf? (OAQ10067)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Tachwedd a'r ddadl ar 14 Rhagfyr am y rhaglen fusnes flynyddol. Mae hon yn adlewyrchu'r rhaglen ddeddfwriaethol a rhaglen y Cyfarfodydd Llawn ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol hyd at Gorffennaf 2001 yng nghyswllt gweithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' a 'Gwellcymru.com'. Caiff rhaglen bellach ei llunio yn yr hydref.

### Hybu Tryloywder o fewn Llywodraeth Cymru

**C22 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad cryno ar y modd y mae'n ceisio hybu tryloywder o fewn Llywodraeth Cymru? (OAQ10071)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf am i fod yn agored fod wrth wraidd busnes y Cynulliad. Cynhelir ein cyfarfodydd yn gyhoeddus ac fe'u darlledir. Yn ogystal, mae cofrestr o ddogfennau'r Cynulliad ar gael ar y rhyngrwyd. Mae'r safle yn cael ei ddatblygu a chaiff ei ehangu i gynnwys amrywiaeth mwy o wybodaeth. Mae cofnodion cyfarfodydd y Cabinet a briffiau i'r wasg hefyd ar gael ar y rhyngrwyd, ac felly hefyd Gofnod y Trafodion y Cynulliad.

### Cyngor Partneriaeth Busnes (Perthynas Gryfach â'r Cynulliad)

**C23 Pauline Jarman:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gyda'r Cyngor Partneriaeth Busnes ynghylch sefydlu perthynas gryfach gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ10057)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym yn ystyried cynnig i sefydlu uned cefnogi busnes i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ein partneriaid a'r Cynulliad. Trafodwyd y cynnig gyda'r Cyngor Partneriaeth Busnes.

### Cynrychioli Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd

**C24 Ieuan Wyn Jones:** Fel y Gweinidog sydd yn gyfrifol am ddimensiwn Ewropeaidd polisïau'r Cynulliad, pa gamau mae Prif Weinidog Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n llawn ac yn ddigonol o fewn yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ10056)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae gan y Cynulliad gynrychiolaeth dda oddi mewn i sefydliadau'r UE. Ar hyn o bryd, ceir pump o Aelodau Seneddol Ewropeaidd Cymreig. Mae gan Gymru hefyd gynrychiolaeth ar Bwyllgor y Rhanbarthau a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol.

Mae'n bwysig bod Cymru yn cyfranogi'n llawn yn y broses o ddatblygu polisïau'r UE a chwiliwn yn barhaus am ffyrdd o sicrhau hyn. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb Gweinidogion y Cynulliad yng Nghynghorau'r UE. Dros y misoedd diwethaf, mae Gweinidogion y Cynulliad wedi mynychu'r Cynghorau Amaethyddiaeth, Addysg, Ieuenctid a Iechyd ac, unwaith, ar 9 Tachwedd 2000, arweiniais gynrychiolaeth Cyngor Gweinidogion y DU. Yn ychwanegol at y gynrychiolaeth sydd gennym yn yr amrywiol sefydliadau, yr ydym yn dal i archwilio cyfleoedd newydd a manteisio ar y rheini sydd yn bodoli eisoes er mwyn hybu buddiannau Cymru.

Bydd y Trefnydd yn cadeirio'r Rhwydwaith TeleRanbarthau am y tro cyntaf ddydd Gwener 9 Mawrth ar ôl cael ei benodi'n llywydd arno yn ddiweddar. Amcan y rhwydwaith yw lledaenu'r arfer gorau wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth i gysylltu gweinyddiaethau rhanbarthol gyda sefydliadau'r UE ac i wella'r ysbryd cystadleuol.

## Datganiadau Polisi gan Lywodraeth y DU

**C25 Peter Black:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y modd y mae'n sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymgynghori â'r Cynulliad cyn gwneud datganiadau polisi sydd yn effeithio ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ10060)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i OAQ10075 a ofynnwyd gan Mick Bates heddiw.